# Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
## 21 Mai 2020
## Cyfarfod Microsoft Teams
## Nodyn o'r Cyfarfod

## Yn bresennol:
Jane Hutt AS – y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (DWPCh)

Anna Nicholl - CGGC
Ben Lloyd – CGGC
Felicitie Walls - CGGC
Fiona Harris - CGGC
Helene Hayes – y Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol
Karen Whitfield – Cyswllt Amgylchedd Cymru
Kate Young – Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Lles a Chwaraeon
Susie Ventris Field - Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Kate McColgan - Crefydd
Andrea Cleaver – Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
Matthew Williams – Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Owen Evans – Plant yng Nghymru
Patience Bentu- Lleiafrifoedd Ethnig
Sandy Clubb – Gwirfoddoli
Jamie Birt - Cyflogaeth
Rocio Cifuentes - Lleiafrifoedd Ethnig
Kathryn Robson – Addysg a Hyfforddiant
Iestyn Wyn - Cyfeiriadedd Rhywiol
Carl Cooper – Cyfryngwyr
San Leonard – Mentrau Cymdeithasol
Catherine Fookes – Rhywedd
Elin Maher – y Gymraeg

**Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n bresennol:**
Alyson Francis – Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cymunedau
Chris Buchan – Pennaeth y Tîm Cymunedau a'r Trydydd Sector
Paul Dear – yr Is-adran Cymunedau
Aaron Fortt – Tim y Trydydd Sector
Helen Brown – Tim y Trydydd Sector
Jenna Pugh – Tim y Trydydd Sector

**Ymddiheuriadau**
Ruth Marks – Prif Weithredwr, CGGC
Chris Johnes – Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
Gethin Rhys – Crefydd
Paul Glaze - Iechyd
Claire Lawson- Lles Anifeiliaid
Gareth Coles- y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth
John Puzey -Tai
Victoria Lloyd –Pobl Hŷn

## Eitem Agenda 1 - Cyflwyniad

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (DWPCh). Agorwyd y cyfarfod drwy ddiolch i bawb am ddod i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (CPTS) mor fuan ar ôl y CPTS diwethaf. Esboniodd y DWPCh ei bod, gydol y 3 wythnos diwethaf, wedi bod yn rhan o nifer o drafodaethau a chyfarfodydd gyda'r trydydd sector ac roedd yn cydnabod y gwaith gwych a wnaed mewn cyn lleied o amser. Cred y DWPCh bod CPTS yn hanfodol i'r gwaith o helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y problemau sydd wedi eu creu gan y pandemig hwn ac mae'n edrych ymlaen hefyd at glywed sut y mae'r rhwydweithiau CPTS yn ymateb i'r anghenion hyn.

## Eitem Agenda 2 – Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Rhoddodd y DWPCh ddiweddariad byr ynghylch ei phortffolio, ond roedd am i'r cyfarfod hwn ganolbwyntio ar ddeall lle mae'r pwysau ar y sector a beth yw'r blaenoriaethau.

Diweddariadau gan y DWPCh:

- Cymorth cyllidol - llif cyson o geisiadau i'r ddwy brif gronfa y mae CGGC wedi ein helpu i'w sefydlu.  Cafwyd amrywiaeth dda o geisiadau, yn ddaearyddol ac yn thematig, ond byddwn yn cynnal adolygiad mwy ffurfiol dros yr wythnosau nesaf i weld a oes unrhyw feysydd y gallai fod angen i ni eu targedu.

- Mae'r ceisiadau i Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol yn werth dros £6.6 miliwn ac mae cyfanswm y ceisiadau i Gronfa Cadernid y Trydydd Sector dros £4.0 miliwn.

- Nododd y DWPCh nad Llywodraeth Cymru yw'r unig ffynhonnell o gyllid sydd ar gael i'r sector, ac mae swyddogion o'r Is-adran Cymunedau yn cydweithio'n agos ag arianwyr allweddol eraill i rannu gwybodaeth, fel y gallwn, gyda'n gilydd, ymdrin â chynifer o anghenion y sector ag y bo modd. Cafodd y DWPCh gyfarfod cadarnhaol iawn gyda'r Loteri (12 Mai 2020) mewn cysylltiad â hyn.

- Mae bron i 31,000 o bobl (cywir ar 21 Mai) wedi cofrestru ar Gwirfoddoli Cymru, ac mae 17,605 wedi cofrestru ers mis Mawrth. Er bod y rhain yn ffigurau anhygoel, dim ond rhan o'r stori ryfeddol sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru ym maes gwirfoddoli sydd yma.

- Mae swyddogion yn cydweithio ag awdurdodau lleol a phrif swyddogion CGS i ddeall y sefyllfa yn lleol. Byddwn yn cadw llygad barcud ar effeithiau posibl gweithwyr sydd wedi bod ar ffyrlo ac sy'n dychwelyd i'r gwaith neu staff Awdurdod Lleol a adleolwyd sy'n dychwelyd i'w rolau arferol. Rydym hefyd yn ceisio nodi o ble y daw'r galw newydd tebygol am wirfoddoli.

- Diolchodd y DWPCh i gydweithwyr yn y CGS sydd wedi bod yn gweithio mor gadarnhaol gyda phartneriaid allweddol yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol i gydlynu'r ymdrechion yn lleol.

- Mae'r DWPCh am sicrhau bod y rhai sy'n helpu eraill yn gallu adnabod arwyddion o gam-drin a gwybod sut y gallant helpu mewn modd diogel, boed hynny'n un o'r miloedd o wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo ein pobl fwyaf bregus, darparwyr cymorth, contractiwr brys, gweithlu gwasanaethau post, siopau lleol, neu weithiwr mewn archfarchnad. Mae'r **modiwl dysgu VAWDASV ar-lein bellach ar gael i bawb** i helpu pobl i sylwi ar yr arwyddion o gam-drin domestig, ac i wybod sut y gallant gael mynediad at rywun/atgyfeirio rhywun yn ddiogel am gymorth i helpu. Modiwl 45 munud, rhad ac am ddim yw hwn ac mae ar gael i bawb, yn Gymraeg a Saesneg. Rhannodd DWPCh y ddolen, a gellir gwneud y modiwl wrth fewngofnodi fel gwestai gyda CPTS:

  https://learning2.wales.nhs.uk/course/view.php?id=71

- Yn ystod y cyfnod rhwng 6 Mawrth a diwedd mis Ebrill, roedd Cronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru wedi helpu 7,175 o bobl, sy'n dangos yn glir bod galw am gymorth. Roedd y materion mwyaf cyffredin yn ymwneud â hawliadau am Gredyd Cynhwysol a budd-daliadau lles eraill, er bod darparwyr wedi dweud bod cyfran uwch o bobl angen cyngor ar faterion cyflogaeth. Bydd DWPCh yn cadw llygad barcud ar y tueddiadau hyn er mwyn ymateb i'r anghenion sy'n datblygu.

## Eitem Agenda 3 - Diweddariad gan y sector

Galwodd y DWPCh ar aelodau am ddiweddariadau:

**Addysg a Hyfforddiant** - Kathryn Robson - Mae'r argyfwng wedi ysgogi llawer o sylw a galw am wasanaethau digidol. Gwerthfawrogir arian ychwanegol sy'n cael ei roi i'r sector addysg (£ 3m) ond mae rhai sydd o dan anfantais gynyddol o hyd am nad yw'r adnoddau ganddynt i gael gafael ar y cymorth. Sylweddolir bod llawer o waith yn mynd rhagddo yn y maes hwn drwy Fframwaith Cynhwysiant Digidol LlC etc. ond mae'r argyfwng presennol yn cynyddu'r galw.

**Cyfryngwyr** - Carl Cooper - Mae'r cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer y seilwaith (drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru) wedi bod yn hanfodol i alluogi cyfryngwyr i ymdopi â'r cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau. Dyma'r 3 prif sylw:

- Gwelwyd cynnydd aruthrol mewn gweithgarwch gwirfoddoli anffurfiol ledled Cymru sy'n helpu mewn nifer o wahanol ffyrdd. Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, sut mae manteisio ar y gweithgarwch cymunedol hwn sydd wedi bod mor bwysig (gan ddefnyddio'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwerth Cymdeithasol a Byrddau Prosiectau Gwledig etc)?
- O ran gwirfoddoli ffurfiol, mae CGS wedi bod yn recriwtio gwirfoddolwyr i gefnogi gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol statudol ond nid ydyw yn wedi rhoi gwirfoddolwyr mewn lleoliadau gofal wedi digwydd cystal ag y gallai, a byddai'n werth archwilio'r rheswm dros hyn.

- Mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r hyn sydd wedi digwydd yn yr argyfwng i newid barn ein partneriaid yn y sector iechyd a'r sector cyhoeddus mai gwirfoddoli yw’r dewis olaf, a'i fod yn weddol isel yn yr hierarchaeth hyder. Sut mae sicrhau bod gwirfoddoli yn rhan annatod o'n diwylliant sefydliadol ac yn rhan allweddol o'n prosesau cynllunio?

**Lleiafrifoedd Ethnig** - Rocio Cifuentes (RC) – Diolchodd Rocio i'r DWPCh am yr amser y mae hi wedi'i fuddsoddi mewn materion BAME yn ystod y pandemig. Bu cynnydd mawr mewn gweithgarwch ymysg grwpiau cymunedol BAME, ond mae diffyg adnoddau a chapasiti i fanteisio ar ymdrechion gwirfoddolwyr. Mae cyllidwyr yn awyddus i gefnogi prosiectau gan eu bod yn deall effaith anghymesur yr argyfwng ar gymunedau BAME. Er hynny, nid yw cyllidwyr a grwpiau cymunedol wedi eu cysylltu’n dda – Mae Roccio yn gweithio gyda CGGC i weld a oes modd gwneud rhywbeth am hyn.

**Rhywedd -** Catherine Fookes **-** Esboniodd Catherine fod yna 3 maes blaenoriaeth ar hyn o bryd- *Diogelu menywod rhag tlodi*, *sicrhau bod menywod yn ddiogel gartref*, a *sicrhau bod menywod yn ddiogel yn y gwaith*. Diolchodd i'r DWPCh am wrando ar y materion hyn a gweithredu arnynt**.**

**Cyfeiriadedd Rhywiol** - Iestyn Wyn **-** Mae unigolion LGBT yn wynebu mwy o risg oherwydd unigedd ac maent yn fwy tebygol o ddioddef problemau iechyd meddwl – mae'r risgiau'n cynyddu yn y cyfnod hwn gan fod pobl yn cael eu gorfodi i ynysu gyda nhw e.e. aelodau homoffobig o'r teulu.

Felly, rydym yn rhagweld y bydd cynnydd yn y nifer o unigolion LGBT sydd eisiau cymorth iechyd meddwl a digartrefedd yn y dyfodol.

**Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru** - Susie Ventris Field - Mae'r anghydraddoldebau y sonnir amdanynt sy'n bodoli yng Nghymru yn digwydd ledled y byd, ac mae angen cadw undod rhyngwladol wrth ddelio â’r materion hyn. Mae pryder y bydd cyllid yn cael ei symud o'r sefydliadau bach hynny sy'n delio â'r materion hyn (nad ydynt yn diflannu) wrth fynd ati i ymateb i faterion sy’n ymwneud â COVID-19.

**DWPCh** – bydd cofnodion y cyfarfod hwn o’r CPTS hwn yn cael eu rhannu â'r Gweinidog Addysg er mwyn codi'r mater ynghylch y rhwystrau y mae’r rhai sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ei hwynebu wrth chwilio am gymorth.

Dylem fod yn falch o'n seilwaith gwirfoddoli, ond mae angen inni ystyried y cynnydd mewn gweithgarwch a pheidio â cholli'r brwdfrydedd – nid oes rheidrwydd y bydd angen arian ar gyfer hyn. Yn ystod Wythnos Gwirfoddoli, mae angen i ni amlygu ystyr a gwerth gwirfoddoli yn ogystal â diolch o waelod calon. Mae llawer yma i ni cnoi cil a manteisio arno yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae angen i asiantau helpu'r rhai nad ydynt erioed wedi cael arian o'r blaen a dylid eu hannog i siarad â'u CGS lleol a all eu rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau perthnasol sy'n gallu rhoi cefnogaeth iddynt.

Diolchodd y DWPCh i Iestyn, ac awgrymodd y posibilrwydd y gallai ddod i gyfarfod nesaf y Grŵp Llywio Cryfhau Cydraddoldeb a Hyrwyddo Hawliau Dynol i drafod y materion a godwyd ganddo oherwydd eu bod yn feysydd nad ydyn nhw wedi ymwneud digon â nhw (yn enwedig o safbwynt "pobl ifanc"). Mae'n rhaid pwysleisio pwysigrwydd yr anghydraddoldebau cudd hyn o ran materion LGBT a VAWDA er mwyn gwella ein gwaith cynllunio.

Diolchodd y DWPCh i Catherine am gael y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion sydd heb eu datganoli, ac esboniodd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Phwyllgor y TUC ar faterion yn ymwneud â diogelwch yn y gweithle.

Apeliodd y DWPCh apêl am dystiolaeth ar yr holl faterion a godwyd.

## Eitem Agenda 4 – Adferiad COVID-19 a chynllunio ymlaen llaw

Rhoddodd Anna Nicholl ddiweddariad ar y gwaith adferol a chynllunio ymlaen llaw y mae CGGC yn ei wneud i drafod â'r sector ar y materion blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg mewn ffordd agored a chynhwysol. Bydd y gwaith hwn yn cynhyrchu adroddiadau wythnosol ac yn arwain at yr adroddiad terfynol. Mae'r gwaith yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru.

Eglurodd y DWPCh fod rhaid ymgymryd â'r gwaith hwn mewn ffordd sy’n cadw cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn cof ac y dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn fframwaith ni.

Yna darparodd nifer o aelodau CPTS y diweddariadau canlynol ar y gwaith adfer a blaengynllunio y maent yn ymwneud ag ef a'r materion y maent yn eu hwynebu:

**Cyswllt Amgylchedd Cymru** - Karen Whitfield - Croesawodd Karen y ffaith bod y Cwnsler Cyffredinol wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar gyfer COVID, gan bwysleisio, fel sy’n wir gyda phob elfen o gynllunio i'r dyfodol, fod cyfleoedd cynnar ar gyfer cynnwys y trydydd sector a chyd-gynllunio yn hollbwysig. Teimla hefyd fod angen i'r map ffordd gynnwys materion yn ymwneud â'r hinsawdd gan nad yw'r materion hyn wedi diflannu.

**Lleiafrifoedd Ethnig** - Patience Bentu- Roedd Patience yn pryderu am 2 fater a godwyd yn ei rhwydwaith y mae angen eu hystyried yn y broses cynllunio ymlaen llaw. Amseroedd gweithredu cheisiadau am gyllid a Chyllid Craidd.

**Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid** - Andrea Cleaver - Mae angen i ni barhau i fod yn ymwybodol a chynllunio ar gyfer y ffaith y gallai'r effaith ariannol sylweddol fod ar y sector ym mlwyddyn ariannol 2021-22 wrth i nifer o faterion gymhlethu a chael effaith ar ei gilydd – mae'r rhan fwyaf o gyllid gan gyllidwyr mawr ar hyn o bryd yn mynd i waith sy’n ymwneud â COVID, ond bydd angen i ni feddwl am yr effeithiau hynny ar sefydliadau pan fyddant yn dychwelyd i gyflawni eu gwaith fel arfer – bydd bwlch cyllido o Ebrill 2021 wedi'i ddwysáu oherwydd diffyg gallu i wneud cais am arian a diffyg penderfyniadau amserol gan gyllidwyr (gan gynnwys Llywodraeth Cymru).

**Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Lles a Chwaraeon** - Kate Young- Mae llawer o arian ar lefel leol wedi cael ei ddargyfeirio dros yr wythnosau diwethaf, ond bydd angen i'r gwaith a gynlluniwyd cyn i hyn ddigwydd gael ei wneud rhyw dro. Mae angen inni adeiladu ar sail yr ysbryd newydd o weithio mewn partneriaeth a sicrhau bod y trydydd sector yn rhan o'r trafodaethau cynllunio hynny ar gyfer llunio gwasanaethau.

Mae angen i faterion iechyd a gofal cymdeithasol hefyd fod yn rhan allweddol o'r ddogfen " Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi", mae angen inni hefyd roi sylw arbennig i systemau cymorth ein gofalwyr di-dâl hanfodol.

**Ymateb y DWPCh**

Bydd y DWPCh yn sicrhau ei bod yn denu diddordeb a chyfraniad y trydydd sector yn yr adferiad. Bydd y cofnodion o'r cyfarfod hwn yn cael eu trosglwyddo i'r Cwnsler Cyffredinol a bydd y DWPCh yn siarad â'r Cwnsler Cyffredinol am y CG am ymglymiad a chynrychiolaeth y trydydd sector yn y broses a sefydlwyd ganddo.

Eglurodd y DWPCh fod y CGGC yn cydlynu'r gwaith hwn, ac fe hoffai weld ymateb ffurfiol (yn cynnwys cymaint o dystiolaeth â phosibl) yn cael ei gasglu yn y 7-8 wythnos nesaf.

## Eitem Agenda 5 - UFA

Dim

Daeth y DWPCh â'r cyfarfod i ben drwy bwysleisio pa mor allweddol yw rôl y sector erbyn hyn, a bod angen inni adeiladu ar y cyfleoedd cadarnhaol y mae'r argyfwng yn eu cynnig o ran gwirfoddoli a gweithio mewn partneriaeth

**Camau gweithredu**

- Nodyn cyfarfod CPTS i gael ei anfon i'r Gweinidog Addysg a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd.
- TSPC i ddarparu ymateb ffurfiol o fewn y 6-7 wythnos nesaf i'r DWPCh o ran y gwaith sy'n cael ei gydlynu gan CGGC ar adferiad a chynllunio ymlaen llaw.